

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y MESUR YNNI

### Legislative Consent Motion

1. “I gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau sy'n ymwneud â'r Awdurdod Glo yn Rhan 4 o'r Mesur Ynni, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 8 Rhagfyr 2010, i'r graddau y mae'r darpariaethau'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

### Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog (RhS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y “Cynulliad Cenedlaethol”). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan RhS26.2. Yn ôl RhS26, rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ger bron y Cynulliad cenedlaethol os bydd Mesur gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu bwrpas sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.
3. Cafodd y Mesur Ynni (y “Mesur”) ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ar 8 Rhagfyr 2010. Fe welwch y Mesur yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2010-11/energyhl.html>

### Crynodeb o'r Mesur a'i Amcanion o ran Polisi

4. Noddir y Mesur gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae gan y Mesur dri phrif amcan: mynd i'r afael â rhwystrau rhag buddsoddi i arbed ynni; gwneud cyflenwadau ynni'n fwy diogel a hwyluso buddsoddi mewn cyflenwadau ynni carbon isel.
5. Ceir darpariaethau yn y Mesur ar gyfer cyllido mesurau arbed ynni mewn cartrefi a busnesau (y “Fargen Werdd”) ac i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid wneud eu heiddo domestig a masnachol yng Nghymru a Lloegr yn fwy ynni-effeithlon. Hefyd, mae'r Mesur yn cyflwyno targedau newydd ar gyfer cwmnïau ynni i leihau costau gwresogi cartrefi ac i wella cyfleoedd i weld data perfformiad ynni.
6. Ymhlith y meysydd polisi eraill y mae'r Mesur yn ymdrin â nhw y mae mynediad i drydydd parti at seilwaith olew a nwy y DU; trefn weinyddol

arbennig ar gyfer cyflenwyr ynni; a phwerau newydd i'r Awdurdod Glo. Mae'r Mesur yn diddymu hefyd Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995.

### **Darpariaethau yn y Mesur y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

7. Mae Cymal 100 y Mesur yn diwygio Deddf Diwydiant Glo 1994 er mwyn rhoi pwerau newydd i'r Awdurdod Glo yng Nghymru a Lloegr allu cymryd y camau fel y gwêl sy'n briodol i ddelio ag ymsuddiant sy'n digwydd heb gysylltiad â chloddio am lo ac i rwystro a lliniaru effeithiau gollyngiadau dŵr o leoedd heblaw pyllau glo. Ychwanegir darpariaeth debyg mewn cysylltiad â'r Alban trwy gymal ar wahân na fyddwn yn ei ystyried ymhellach.
8. Y bwriad yw galluogi'r Awdurdod Glo i ddefnyddio'i arbenigeddau hysbys i helpu cyrff cyhoeddus eraill a landlordiaid preifat i ddelio â llygredd dŵr ac ag ymsuddiant y tu allan i'r maes cloddio am lo.
9. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â:
  - (i) Mater 6.3 yn Rhan 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLIC 2006") i ddeddfu mewn cysylltiad â "diogelu neu wella'r amgylchedd o ran llygredd"; a
  - (ii) Mater 6.4 yn Rhan 1 Atodlen 5 DLIC 2006 i ddeddfu mewn cysylltiad â "diogelu neu wella'r amgylchedd o ran niwsansau".
10. Yn y maes hwn, ystyr "niwsans" ("*nuisance*") yw "gweithred neu anwaith sy'n effeithio ar unrhyw fan, neu amgylchiadau mewn unrhyw fan, a ddichon amharu ar amwynder yr amgylchedd neu unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r amgylchedd, neu ymyrryd â'r amwynder neu'r defnydd hwnnw, ar wahân i weithred, anwaith neu amgylchiadau sy'n llygredd." (Maes 6, Atodlen 5, DLIC 2006). Trwy gymhwyso'r diffiniad eang hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu y bydd llawer achos o ymsuddiant yn cael ei ystyried yn "niwsans" at bwrpas mater 6.4.
11. At hynny, rydym o'r farn bod gollyngiadau o ddŵr llygredig (sef y brif broblem y mae ail ran y ddarpariaeth yn ymwneud â hi) yn cael eu hystyried yn "llygredd" at bwrpas mater 6.3, lle gallai'r gollyngiad hwnnw beri difrod amgylcheddol.
12. Barn Llywodraeth y Cynulliad felly yw bod hyn, i'r graddau bod y ddarpariaeth hon yn rhoi pwerau i'r Awdurdod Glo weithredu i ddelio ag ymsuddiant sy'n niwsans neu i rwystro neu lliniaru effaith gollyngiad o ddŵr sy'n llygru, yn dod yn gymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan fater 6.3 a mater 6.4, a bod angen cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol o dan RhS26. Yn ôl RhS26, rhaid cyflwyno a gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ger bron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Mesur gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at

bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

### **Manteision defnyddio'r Mesur**

13. Bydd y pwerau newydd hyn yn ychwanegol at swyddogaethau statudol presennol yr Awdurdod Glo a bydd yn galluogi'r Awdurdod i ddefnyddio'i arbenigedd hysbys o ran rheoli ymsuddiant a lliniaru effeithiau dŵr llygredig mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r maes cloddio am lo.
14. Barn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Mesur DU hwn gan mai hwnnw yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i gymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru, er mwyn gallu ymestyn arbenigeddau'r Awdurdod cyn gynted ag y medrir i'w defnyddio er lles y cyhoedd ac er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd.
15. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn felly wedi'i osod, a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i gyflwyno, ger bron y Cynulliad Cenedlaethol iddo eu hystyried.

### **Goblygiadau Ariannol**

16. O roi darpariaethau perthnasol Mesur Ynni'r DU ar waith yn y dyfodol, ni ragwelir goblygiadau ariannol i Lywodraeth y Cynulliad na ellid eu hymgorffori o fewn ymrwymadau presennol.

**Jane Davidson AC**  
**Gweinidog Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**  
**Ionawr 2011**

## **CYNNIG CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

### **MESUR YNNI**

“I gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau sy'n ymwneud â'r Awdurdod Glo yn Rhan 4 o'r Mesur Ynni, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 8 Rhagfyr 2010, i'r graddau y mae'r darpariaethau'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

Cyflwynir y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dyddiedig